Coginio a phobi yn yr awyr agored

Trosolwg

Mae'r gweithgaredd hwn, sy'n gyfoethog o ran y dychymyg, yn galluogi'r plant i ymarfer eu sgiliau echddygol wrth goginio danteithion yn y gegin awyr agored.



Gweithgareddau

Dechreuwch drwy wahodd y plant i archwilio'r man awyr agored a chas glu eitemau naturiol. Gan ddefnyddio cardiau ryseitiau syml sy'n gardiau esgus, anogwch nhw i'w dilyn er mwyn creu "danteithion" dychmygus. Helpwch y plant wrth iddynt ddewis a llunio e creadigaethau, gan ddisgri io'r hyn y maent yn ei wneud. Rhowch ryddid iddynt chwarae rôl, arbro i a chydweithio, gan eu helpu i ymarfer sgiliau echddygol manwl, dilyniannu, a meddwl yn greadigol wrth iddynt "goginio" yn y gegin awyr agored.

Offer

- Cardiau ryseitiau
- Eitemau naturiol (moch coed, brigau, cerrig, petalau, mwd, dail)
- Offer coginio (sosbenni, chwisgiau, llwyau pren, platiau, jygiau mesur)

Cwestiynau allweddol

Alli di ddangos i fi sut rwyt ti'n codi'r darnau bach yn ofalus?
I ble gallet ti fynd i ddod o hyd i rywbeth sydd ei angen arnat?
Alli di ddod ag e'n ôl ar gyfer dy rysáit?

Deilliannau dysgu

- Sgiliau echddygol manwl: bydd y plant yn gweithio ar gryfder eu bysedd, gan gynnwys eu gallu i binsio, ac ar gryfder eu dwylo a'u harddyrnau wrth iddynt baratoi a gweini'r bwyd.
- Sgiliau echddygol bras: mae'r gweithgaredd hwn yn un ardderchog i gryfhau'r gwargenglau wrth gymysgu'r cynhwysion â'i gilydd.

Symud y dysgu yn ei flaen

Babanod – gall y plant archwilio'r offer gan ymarfer ymestyn a gafael.
Plant bach – gallant ymarfer creu bwyd mewn cegin fwd gan ddefnyddio'r un offer a'r un eitemau naturiol os yw'n ddiogel iddynt wneud hynny, heb ddilyn unrhyw gardiau ryseitiau.